| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | FFORWM CYLLIDEB YSGOLION |
| **DYDDIAD** | 04 Gorffennaf 2016 |
| **TEITL** | Grantiau Ysgolion 2016/17 |
| **PWRPAS** | Er gwybodaeth |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr adroddiad |
| **AWDUR** | Arwyn Thomas, Pennaeth Addysg |
| **AELOD CABINET DROS ADDYSG** | Y Cynghorydd Gareth Thomas |

**Dyma grynodeb fesul sector o'r gwahanol grantiau am 2016/17 –**

| Ysgolion | GAD 5-15oed | GAD dan 5oed | **GAD cyf** | GGA Cyfnod Sylfaen damcan-iaethol | GGA Eraill | **GGA cyf** | Grant 6ed dosbarth | **Cyfanswm grantiau** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynradd | £2,212,100 | £108,600 | **£1,320,700** | £3,134,471 | £622,748 | **£3,757,219** | | **£5,077,919** |
| Uwchradd | £849,850 | | **£849,850** | | £401,373 | **£401,373** | £3,277,221 | **£4,528,444** |
| Arbennig | £32,200 | £600 | **£32,800** | | £13,226 | **£13,226** | | **£46,026** |
| **Cyfanswm** | **£2,094,150** | **£109,200** | **£2,203,350** | **£3,134,471** | **£1,037,347** | **£4,171,818** | **£3,277,221** | **£9,652,389** |

Mae **atodiad 1** yn manylu ar y prif grantiau sydd wedi'i datganoli i pob ysgol yng Ngwynedd am 2016/17 – cyfanswm o £9.6miliwn uwchben y £74miliwn a ddyrennir gan y Cyngor.

**Grant Amddifadedd Disgbylion (GAD) 2016/17 £2,203,350 (2015/16 £1,977,450)**
Dyrennir y grant ar sail nifer disgyblion gyda hawl cinio am ddim. Ar gyfer yr elfen disgyblion o oed ysgol statudol 5-15 oed £1,150 y pen a £300 y pen am yr elfen disgyblion dan 5 oed. Pwrpas y grant ydi targedu disgyblion â hawl cinio am ddim i wella safonau llythrennedd, rhifedd ac hefyd i gau'r bwlch rhwng plant difreintiedig a'u cyfoedion.

**Grant Gwella Addysg (GGA) 2016/17 £4,171,818 (2015/16 £4,368,705)**
Pwrpas y GGA ydi codi safonau addysgu. Mae fformiwla penodol ar gyfer adnabod elfen damcaniaethol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen , gyda gofyn i weithio tuag at cymhareb o 1:8 oedolyn i ddisgyblion yn y blynyddoedd meithrin a derbyn a chymhareb o 1:15 yn blynyddoedd 1 a 2.

Mae gweddill y GGA yn cael ei ddyrannu ar sail 80% nifer disgyblion a 20% ar sail niferoedd cinio am ddim.

Mae GwE yn cynnig cefnogaeth gynhwysfawr i ysgolion ar eu defnydd o'r GGA a'r GAD, gan gymryd cyfrifoldeb dros fonitro a herio'u defnydd o'r cyllid hwn.

**Grant 6ed dosbarth 2016/17 £3,277,221 (2015/16 £3,168,403)**
O'r 14 ysgol uwchradd yng Ngwynedd mae 7 yn darparu cyrisau 6ed dosbarth. Mae'r grant yn cael ei ddyrannu ar sail cyfuniad o nifer disgyblion/nifer cyrsiau, amddifadedd, gwasgaredd ac addysg cywfrwng Gymraeg.